Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

Rhagfyr 2023 Canfyddiadau Arolwg Panel:

Brechlynnau ffliw a COVID-19 Brechu a beichiogrwydd, Gwasanaeth 111 GIG Cymru, a Chlystyrau Gofal Sylfaenol

Cyhoeddwyd: Chwefror 2024

# Cefndir

- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** yn banel cenedlaethol o drigolion Cymru sy'n 16+ oed a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi **ymgysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd** i lywio polisïau ac ymarfer iechyd y cyhoedd.
- Cynlluniwyd y panel i gynrychioli poblogaeth Cymru yn gyffredinol yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd, ethnigrwydd a bwrdd iechyd.
- Mae aelodau'r cyhoedd yn cael eu recriwtio i'r panel gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac yna'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon rheolaidd i roi cipolwg ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol.
- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Rhagfyr 2023 sy'n cwmpasu:
  - **Brechlynnau ffliw a COVID-19**
  - **Brechu a beichiogrwydd**
  - **Gwasanaeth 111 GIG Cymru**
  - **Chlystyrau Gofal Sylfaenol**
- Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Cymru sydd yn rhoi o'u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn y panel.





# Trosolwg Methodolegol

- Ymgymerwyd â recriwtio cychwynnol i banel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Tachwedd 2022-Ionawr 2023) dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae recriwtio i'r panel yn barhaus a gall unigolion gofrestru drwy wefan y Panel unrhyw bryd. Yn seiliedig ar sgrinio demograffig cychwynnol, caiff unigolion naill ai eu recriwtio'n uniongyrchol i'r panel neu eu gwahodd i ymuno â rhestr aros os yw'r cwota ar gyfer eu proffil demograffig yn llawn.
- Ar hyn o bryd, gwahoddir aelodau'r panel i gwblhau arolwg bob dau fis, naill ai ar-lein neu dros y ffôn.
- Yn ystod cyflwyno pob arolwg, ymgymerir â chyfranogiad targedig ychwanegol trwy gyfweliadau wyneb yn wyneb a hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cynrychioldeb sampl yn ôl yr angen.
- Ni chynhigir unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer cyfranogiad.
- Oherwydd bod y panel wedi'i ddewis yn rhannol ei hun ac yn canolbwyntio ar bynciau iechyd y cyhoedd, gallai'r sampl gael ei effeithio gan duedd tuag at drigolion sydd â mwy o ddiddordeb mewn pynciau iechyd cyhoeddus a materion gofal iechyd. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.

- Ceir dadansoddiad demograffig o aelodau'r panel a wahoddwyd i gwblhau'r arolwg, ac o'r 1,119 o gyfranogwyr a gwblhaodd yr arolwg yn yr Atodiad.
- Oni nodir yn wahanol, mae data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.

- **Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg yn yr Atodiad.**

# Pwyntiau Cryno

- Cymerodd 1,119 o bobl ran yn arolwg mis Rhagfyr 2023 (20fed Tachwedd – 27fed Rhagfyr 2023).

## Brechlynnau ffliw a COVID-19

- Dywedodd 29% o bobl eu bod wedi gweld neu glywed negeseuon am frechlynnau ffliw neu COVID-19 yn sôn am Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Y lleoedd a nodwyd amlaf lle dywedodd pobl eu bod wedi gweld y negeseuon hyn oedd mewn lleoliadau iechyd (44% o'r rhai a oedd wedi'u gweld) a chyfryngau newyddion Cymru (41%).
- Pan ofynnwyd iddynt beth oeddent wedi'i ennill o weld y negeseuon, dewisodd 54% o bobl "fod ffliw a/neu COVID-19 yn dal i fod yn risg" a dewisodd 45% "deall pwy all gael y brechlynnau".

## Brechlynnau a beichiogrwydd

- Dywedodd 50% o bobl eu bod yn meddwl ei fod yn "bwysig iawn" a dywedodd 17% eu bod yn meddwl ei bod "Ychydig yn bwysig" bod merched yn cael eu brechu yn ystod beichiogrwydd. Dim ond 5% nododd "ddim yn bwysig o gwbl", tra nododd 26% "ddim yn gwybod".
- Dywedodd dros hanner y bobl eu bod yn gwybod y gall menywod gael brechlyn ffliw (56%) a brechlyn COVID-19 (54%) yn ystod beichiogrwydd; dim ond 32% oedd yn gwybod y gallent gael brechlyn pertwsis (y pâs).

## Gwasanaeth 111 GIG Cymru

- Dywedodd 94% o bobl eu bod wedi clywed am wasanaeth 111 GIG Cymru.
- Pe byddent yn defnyddio gwasan-aeth 111 GIG Cymru, dywedodd 79% o bobl y byddai ganddynt ddi-ddordeb mewn defnyddio'r gwasan-aeth dros y ffôn a 53% mewn def-nyddio gwefan drwy ffôn symud-ol/llechen.

## Chlystyrau Gofal Sylfaenol

- Dywedodd 32% o bobl y byddai ganddyn nhw "ddiddordeb mawr" mewn dysgu mwy am Glystyrau, a dywedodd 47% arall y byddai ganddyn nhw 'rywfaint o ddiddordeb'.
- Dywedodd 60% o bobl y byddai ganddyn nhw ddiddordeb mewn bod yn rhan o ddylunio gwasanaethau iechyd.
- Dywedodd 23% o bobl y bydden nhw'n "hyderus iawn", a 55% yn "weddol hyderus", wrth benderfynu pa weithiwr gofal iechyd proffesiynol fyddai'n briodol iddyn nhw siarad ag ef i ddiwallu eu hanghenion iechyd.


Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Brechlynnau ffliw a COVID-19

# Brechlynnau ffliw a COVID-19

**Ers Medi 2023, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw negeseuon am frechlynnau ffliw neu COVID-19 â'r nodweddion canlynol?* Mae'r rhai a ddywedodd 'ydw' i'w gweld yn y graff.**





*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: ≤1%

# Brechlynnau ffliw a COVID-19

Gofynnwyd i gyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld y negeseuon am frechlynnau ffliw neu COVID-19 (n=429):

**Ble ydych chi wedi gweld neu glywed y negeseuon hyn am frechlynnau ffliw neu COVID-19?***




*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Brechlynnau ffliw a COVID-19

Gofynnwyd i gyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld y negeseuon am frechlynnau ffliw neu COVID-19 (n=429):

**Wnaethoch chi ennill unrhyw un o'r canlynol o weld y negeseuon hyn am frechlynnau ffliw neu COVID-19?***


| | Do |
|---|---|
| Deellais pwy sy'n gallu cael y brechlynnau | 45% |
| Dysgais sut i gael apwyntiad brechlyn | 30% |
| Deall pwysigrwydd a buddion cael eich brechu | 44% |
| Cynyddodd fy ymddiriedaeth yn y brechlynnau | 14% |
| Gwnaeth i mi deimlo'n dda am gael brechlyn | 19% |
| Bod ffliw a/neu COVID-19 yn risg o hyd | 54% |
| Cynyddodd fy hyder yn niogelwch ac effeithiolrwydd y brechlynnau | 16% |
| Arall | 3% |
| Enillais i ddim byd | 22% |

*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Brechlynnau ffliw a COVID-19

Gofynnwyd i gyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld y negeseuon am frechlynnau ffliw neu COVID-19 (n=429):


**Ar ôl gweld y negeseuon hyn am frechlynnau ffliw a COVID-19, wnaethoch chi chwilio am unrhyw wybodaeth ychwanegol o unrhyw un o'r canlynol?***




*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Brechlynnau ffliw a COVID-19

## Ydych chi wedi cael cynnig brechlyn atgyfnerthu COVID ar gyfer yr hydref/gaeaf hwn (hynny yw, o fis Medi 2023)?*#





*Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

#Gofynnwyd y cwestiwn hwn hefyd yn arolwg Hydref 2023 ac ni chafodd ei ailadrodd yn arolwg Rhagfyr 2023 i'r aelodau panel hynny a oedd wedi darparu ymateb 'Ydw, rwyf eisoes wedi'i gael' yn flaenorol. Felly, mae'r data a gyflwynir yma ar gyfer sampl arolwg mis Rhagfyr llawn (N=1,119) ac yn cynnwys ymatebion ar gyfer 76 o unigolion a atebodd y cwestiwn yn arolwg Hydref 2023 a 1,043 a atebodd y cwestiwn yn arolwg Rhagfyr 2023.

# Brechlynnau ffliw a COVID-19

## A gafodd brechlyn ffliw ei chynnig I chi ar gyfer yr hydref/gaeaf hwn (hynny yw, o Medi 2023)?*





*Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Brechlynnau ffliw a COVID-19

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr faint o blant oedd ganddynt a faint oedd oedran pob plentyn. Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i'r sawl a ddywedodd fod ganddo o leiaf un plentyn/plant 2-16 oed (n=177) am bob plentyn. Adroddwyd ar gyfanswm o 294 o blant 2-16 oed.

**Mae gan blant 2-16 oed yng Nghymru hawl i gael brechlyn ffliw am ddim. A yw eich plentyn 2-16 oed wedi cael cynnig brechlyn ffliw ar gyfer yr hydref/gaeaf hwn (h.y. o fis Medi 2023)?***





*Data heb eu pwysoli; n=294 plant yr adroddwyd arnynt gan 177 o rieni

# Brechu a beichiogrwydd

# Brechu a beichiogrwydd


**Holwyd y cyfranogwyr yn benodol am frechlynnau y gall menywod eu cael pan fyddant yn feichiog. Pa mor bwysig, os o gwbl, ydych chi'n meddwl mae hi i fenywod gael eu brechu yn ystod beichiogrwydd?***




*Gwell gennyf beidio â dweud: 3%

# Brechu a beichiogrwydd

## Oeddech chi'n gwybod bod menywod yn ystod beichiogrwydd yn gallu cael y brechlynnau canlynol?*




*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 2%

# Brechu a beichiogrwydd

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf | Gwell gennyf beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae brechlynnau mewn beichiogrwydd yn cynnig amddiffyniad ystyrlon i'r fam a'r baban heb ei eni | 3% | 3% | 26% | 35% | 26% | 7% |
| Mae brechlynnau mewn beichiogrwydd yn ddiogel i'r fam a'r baban heb ei eni | 4% | 5% | 30% | 33% | 21% | 7% |

# Brechu a beichiogrwydd

Gofynnwyd i gyfranogwyr benywaidd a ddywedodd eu bod yn feichiog neu fod ganddynt blentyn tair oed neu iau (n=53):

**Pa rai o'r brechlynnau canlynol, os o gwbl, wnaethoch chi eu derbyn yn ystod eich beichiogrwydd?***

| | Pertussis (y pâs) | COVID-19 | Ffliw |
|---|---|---|---|
| Do - derbyniais i hyn | 77% | 30% | 77% |
| Na - cefais i gynnig ond gwrthodais i hyn | 6% | 25% | 8% |
| Arall# | 15% | 40% | 15% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 2% | 6% | 0% |

*Data heb ei bwysoli. Argymhellir bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn oherwydd bod y sampl yn un bach.
#Oherwydd niferoedd isel, cafodd yr opsiynau ymateb canlynol eu hymgorffori i'r categori hwn: 'Na - ni chynigiwyd hyn i mi', 'Na - nid wyf yn gymwys ar gyfer hyn', 'Ddim yn gwybod', 'Nid wyf wedi cael cysylltiad â gwasanaethau gofal iechyd eto'

# Brechu a beichiogrwydd

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gofynnwyd i gyfranogwyr benywaidd a ddywedodd eu bod yn feichiog ac wedi ymgysylltu â gwasanaeth gofal iechyd, neu fod ganddynt blentyn tair oed neu iau:

**Gan feddwl yn benodol am adeg eich beichiogrwydd, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?***

| | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno |
|---|---|---|---|
| Roeddwn i'n teimlo'n hyderus yn derbyn y frechlyn/y brechlynnau (n=46) | 9% | 11% | 80% |
| Roeddwn i'n gallu cael y brechlynnau yn hawdd gan fy narparwr gofal iechyd (n=46) | 7% | 13% | 80% |
| Derbyniais wybodaeth ddefnyddiol ar frechlynnau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol (n=51) | 25% | 14% | 59% |
| Byddai wedi bod yn haws i mi pe byddai'r brechlynnau wedi cael eu darparu gan y gwasanaethau mamolaeth (n=51) | 29% | 27% | 43% |
| Dylanwadodd cyfryngau cymdeithasol ar fy mhenderfyniadau ar gael brechlynnau (n=51) | 88% | 10% | 2% |

*Data heb eu pwysoli. Argymhellir bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn oherwydd bod y sampl yn un bach.
Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: ≤2%

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Gwasanaeth 111 GIG Cymru


Mae 'Argyfwng' a 'gofal brys' yn cael eu defnyddio'n rhyng-gyfnewidiol yn aml, gyda chanfyddiadau gwahanol mewn ystyr. Mae'r cwestiynau nesaf hyn yn canolbwyntio ar ofal brys, sydd wedi cael ei ddiffinio yn y Llawlyfr polisi Chwech Nod ar gyfer gofal Brys ac Argyfwng, fel "materion iechyd a llesiant a all arwain at niwed arwyddocaol neu barhaol os nad ymdrinnir â hwy o fewn yr 8 awr nesaf”.

## Beth fyddech chi'n ei wneud gyntaf pe byddai gennych broblem iechyd frys (ond nid argyfwng)?*

| | |
|---|---|
| Mynd i fferyllfa leol | 4% |
| Mynd i Uned Mân Ddamweiniau (MIU) | 5% |
| Cysylltu â fy meddygfa leol | 40% |
| Mynd i fy Adran Achosion Brys leol (Uned Damweiniau ac Achosion Brys) | 4% |
| Galw GIG 111 Cymru | 31% |
| Mynd i wefan GIG 111 Cymru | 10% |
| Galw 999 | 1% |
| Arall | 3% |

*Ni fyddwn yn gweithredu o gwbl: <1%; Ddim yn gwybod: 1%; Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

## Cyn heddiw, oeddech chi wedi clywed am wasanaeth GIG 111 Cymru?*





*Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Gwasanaeth 111 GIG Cymru

Gofynnwyd i gyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi clywed am wasanaeth 111 y GIG (n=1,073):

**Mae Gwasanaeth GIG 111 Cymru yn wasanaeth gofal brys 24/7, a gyrchir ar-lein neu ar y ffôn i ddarparu cyngor a lle bo angen cyfeirio neu atgyfeirio at y gwasanaeth cywir, ar unwaith. Ydych chi wedi defnyddio'r gwasanaeth erioed?***





*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Gwasanaeth 111 GIG Cymru

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod wedi defnyddio gwasanaeth 111 GIG Cymru (n=719):

**Sut fyddech chi'n mesur eich profiad o wasanaeth GIG 111 Cymru yn gyffredinol?***





*Data heb eu pwysoli; Ddim yn gwybod: 1%; Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Gwasanaeth 111 GIG Cymru

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod wedi clywed am wasanaeth GIG 111 Cymru ond heb ei ddefnyddio (n=353):

**Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, sy'n rhesymau pam nad ydych wedi defnyddio gwasanaeth GIG 111 Cymru?***




*Data heb eu pwysoli; Gwell gennyf beidio â dweud: ≤1%

# Gwasanaeth 111 GIG Cymru

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Gan feddwl yn benodol am wasanaeth teleffon GIG 111 Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau calnlynol?*

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddai derbynnydd yr alwad yn gyfeillgar a chynorthwyol | 2% | 2% | 11% | 46% | 33% | 7% |
| Byddai'r alwad yn cael ei hadolygu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol mewn dull amserol pe byddai'n ofynnol | 3% | 8% | 14% | 42% | 22% | 11% |
| Byddai'r gofal a thriniaeth y byddwn yn eu derbyn yn ateb fy anghenion | 4% | 8% | 17% | 41% | 21% | 9% |
| Ni fyddai fy ngofal a thriniaeth yn cael eu heffeithio gan fy nodweddion personol (e.e oedran, ethnigrwydd) | 2% | 3% | 10% | 40% | 39% | 6% |
| Byddwn yn cael fy nhrin â charedigrwydd a pharch | 2% | 1% | 9% | 46% | 36% | 6% |
| Os oes angen apwyntiad arall arnaf (e.e. Meddyg Teulu, Uned Mân Anafiadau), dylai'r gwasanaeth ffôn GIG 111 allu archebu hyn i mi fel rhan o'r alwad | 5% | 8% | 10% | 34% | 32% | 11% |

* Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: ≤1%

## Gan feddwl yn benodol am wasanaeth gwefan GIG 111 Cymru, i ba raddaui ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn i'n hapus i ddefnyddio gwiriwr symptomau a dilyn y cyngor a roddodd i mi, gan gynnwys pa wasanaeth gofal iechyd i gysylltu ag ef am fy angen iechyd | 7% | 13% | 11% | 46% | 18% | 5% |
| Byddwn i'n defnyddio tudalen gwasanaethau lleol ar y wefan i ganfod gwasanaethau gofal iechyd i ateb fy anghenion iechyd | 6% | 9% | 15% | 47% | 15% | 6% |
| Byddwn i'n defnyddio'r 'swyddogaeth A-Z' ar y wefan i ymchwilio i fy mhryderon iechyd | 7% | 14% | 13% | 43% | 15% | 8% |
| Byddwn i'n fodlon i ddefnyddio'r wefan ar gyfer ymgynghoriadau fideo pe byddai'n golygu y gallwn i gyrchu'r cyngor a thriniaeth orau yn syth | 5% | 8% | 7% | 44% | 32% | 4% |
| Os oes angen apwyntiad arall arnaf (e.e. Meddyg Teulu, Uned Mân Anafiadau), dylwn I allu archebu hyn wrth ddefnyddio gwasanaeth gwefan GIG 111 | 2% | 4% | 10% | 40% | 35% | 10% |

*Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: ≤1%

# Gwasanaeth 111 GIG Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Pe byddech yn defnyddio gwasanaeth GIG 111 Cymru, ym mha un o'r ffyrdd canlynol fyddai gennych chi ddiddordeb mewn defnyddio'r gwasanaeth?*

| | |
|---|---|
| Trwy alw'r gwasanaeth ffôn | 79% |
| Ar wefan gan ddefnyddio gliniadur / cyfrifiadur | 45% |
| Ar wefan gan ddefnyddio ffôn symudol / llechen | 53% |
| Ar Ap GIG Cymru | 35% |


*Ddim yn gwybod: 3%; Gwell gennyf beidio â dweud: ≤1%

# Chlystyrau Gofal Sylfaenol

Yng Nghymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddod â gwasanaethau iechyd fel Meddygon Teulu, Deintyddion, Fferyllwyr, Optegwyr, Nyrsys a thimau Gofal Cymdeithasol ynghyd yn 'Glystyrau'.Bydd hyn yn helpu pobl i weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol pryd a ble y bydd angen iddynt.

# Chlystyrau Gofal Sylfaenol


## Cyn heddiw, oeddech chi wedi clywed am 'Glystyrau'?*




*Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Chlystyrau Gofal Sylfaenol

## Faint o ddiddordeb, os o gwbl, fyddai gennych I ddysgu mwy am Glystyrau?*




*Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Chlystyrau Gofal Sylfaenol


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Rydym am gynnwys y cyhoedd yn natblygiad Clystyrau, fyddai gennych chi ddiddordeb mewn gwneud unrhyw rai o'r canlynol?

| | Oes - rwyf wedi cymryd rhan eisoes | Oes - mae gennyf ddiddordeb mewn cymryd rhan | Na - nid oes gennyf ddiddordeb mewn cymryd rhan | Gwell gennyf beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|
| Rhoi adborth i wasanaethau gofal iechyd ar ôl i mi eu defnyddio | 4% | 77% | 17% | 2% |
| Rhoi syniadau ar sut rwy'n meddwl y dylai Clystyrau fod yn gweithredu | 1% | 64% | 30% | 4% |
| Cymryd rhan mewn cynllunio gwasanaethau iechyd | 2% | 60% | 35% | 3% |


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi gofyn am apwyntiad Meddyg Teulu ac wedi cael eich cynghori yn y man cyswllt i weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gwahanol (e.e. fferyllydd, ffisiotherapydd) i ateb eich anghenion yn well?*




*Gwell gennyf beidio â dweud: <1%


**Mae'n bwysig fod pobl yn gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cywir ar yr adeg gywir, ac efallai nad y Meddyg Teulu fyddai hyn bob tro. I ba raddau ydych chi'n gwrthwynebu neu'n cefnogi ymagwedd unigolyn cywir, lle cywir, adeg gywir?***




*Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Pa mor hyderus, os o gwbl, fyddech chi mewn penderfynu pa weithiwr gofal iechyd proffesiynol fyddai'n fwyaf priodol i chi siarad ag ef/hi i ateb eich anghenion iechyd?*




*Gwell gennyf beidio â dweud: 1%


# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Eisiau bod yn rhan o'r Panel?

Mae recriwtio i Banel Iechyd y Cyhoedd Amser i Siarad yn barhaus gan ein bod am siarad ag ystod eang o unigolion ledled Cymru.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma'ch cyfle i gael eich clywed.




**SiaradICCymru.com**

**01663 761976**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales


icc.gig.cymru

SiaradICCymru@wales.nhs.uk

02920 227744

Iechyd Cyhoeddus Cymru

@IechydCyhoeddus


**Eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Eisiau darganfod sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.**

World Health Organization Collaborating Centre • On Investment for Health and Well-being •

**Polisi ac Iechyd Rhyngwladol**

**Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

# Project Contributors

**Project Team:** Dr Catherine Sharp, Prof Karen Hughes, Lewis Brace

**Diolchiadau am Gymorth Prosiect Ehangach:**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd, Dynodwyd Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar 'Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant' (WHO CC): Sumina Azam, Nayana Varadaraj, Claire Murlis

Tîm Cyfathrebu: Daniel Owens, Chris Jones, Rebecca Hopkins, Danny Donavan, Laura Overton

Grŵp Cynghori Traws-Sefydliadol: Ashely Gould, Emily van de Venter, Amy Burgess, Dr Sikha de Souza, Heather Ramessur-Marsden, Susan Belfourd, Martine Price, Helen Rose-Jones, Elen de Lacy, Chris Roberts (Llywodraeth Cymru)

**Datblygu'r Holiadur**

Datblygwyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn arolwg mis Rhagfyr mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Atodiad

Demograffeg – Samplau Panel a Arolwg

Dulliau

# Demograffeg y Sampl Panel

| | | Sampl Panel N = 2,345 | | Sampl Arolwg N = 1,119 | | Poblogaeth* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw* | Gwryw | 720 | 31% | 385 | 34% | 49% |
| | Benyw | 1578 | 67% | 716 | 64% | 51% |
| | Arall | 47 | 2% | 18 | 2% | - $ |
| Oedran (blynyddoedd)* | 16-29 | 472 | 20% | 163 | 15% | 21% |
| | 30-49 | 841 | 36% | 316 | 28% | 29% |
| | 50-69 | 708 | 30% | 439 | 39% | 31% |
| | 70+ | 324 | 14% | 201 | 18% | 19% |
| Cwintel amddifadedd^ | 1 (Mwyaf) | 406 | 17% | 167 | 15% | 19% |
| | 2 | 485 | 21% | 220 | 20% | 20% |
| | 3 | 485 | 21% | 242 | 22% | 21% |
| | 4 | 469 | 20% | 239 | 21% | 21% |
| | 5 (Lleiaf) | 500 | 21% | 251 | 22% | 20% |

*16+ oed Cyfwerthoedd poblogaeth o: ONS Amcangyfrifon o boblogaeth y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Canol 2020. www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland; ^Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymrudiweddariad-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019; $Data heb fod ar gael.

Oherwydd diffyg cyfranogiad mewn pedwar arolwg yn olynol, mae 223 o bobl wedi cael eu tynnu oddi ar y panel. Amlinellwyd y broses hon i aelodau'r panel yn y deunydd ymuno.

# Demograffeg y Sampl Panel

| | | Sampl Panel N = 2,345 | | Sampl Arolwg N = 1,119 | | Poblogaeth* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd^ | Gwyn | 2212 | 94% | 1074 | 96% | 95% |
| | Ethnigrwydd cymysg | 52 | 2% | 22 | 2% | 1% |
| | Asaidd neu Asaidd Pryndeinig | 33 | 1% | 11 | 1% | 2% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg neu Du Prydeinig | 20 | 1% | 2 | <1% | 1% |
| | Ethnigrwydd arall | 19 | 1% | 7 | 1% | 1% |
| | Gwell gennyf beidio â dweud | 9 | 0% | 3 | <1% | - $ |
| Bwrdd Iechyd# | BIP Aneurin Bevan | 413 | 18% | 185 | 17% | 19% |
| | BIP Betsi Cadwaladr | 513 | 22% | 267 | 24% | 22% |
| | BIP Caerdydd a'r Fro | 406 | 17% | 184 | 16% | 16% |
| | BIP Cwm Taf Morgannwg | 296 | 13% | 131 | 12% | 14% |
| | BIP Hywel Dda | 330 | 14% | 161 | 14% | 12% |
| | BI Addysgu Powys | 109 | 5% | 58 | 5% | 4% |
| | BIP Bae Abertaw | 278 | 12% | 133 | 12% | 12% |

*16+ oed; ^Mae amcangyfrifon ethnigrwydd y boblogaeth ar gyfer pob oed oherwydd nad oes data ar gael ar gyfer trigolion 65+ oed nad ydynt yn Wyn; Ystadegau Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity; $$Data heb fod ar gael. #Amcangyfrifon poblogaeth 16+; Ystadegau Cymru, https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-HealthBoards/populationestimates-by-lhb-age; BIP – Bwrdd Iechyd Prifysgol.

# Dulliau - Recriwtio Cychwynnol

- Gosodwyd targed cychwynnol o 2,500 aelod panel er mwyn cael sampl arolwg misol o tua 1,000 ymateb; amcangyfrifwyd y byddai’r cyfraddau ymateb i arolygon bob yn ail fis yn 50% ar y mwyaf.

- I gyrraedd ystod o unigolion, defnyddiwyd tri dull recriwtio:

  - Ffon
  - Cyfryngau cymdeithasol
  - Wyneb yn wyneb

- Cafodd cwmni ymchwil i'r farchnad proffesiynol (DJS Research Limited) ei gaffael i gynnal y recriwtio a'r arolygon misol.

- Defnyddiwyd samplu cwota haenog wrth recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cwotâu wedi'u cymhwyso i:

  - Daearyddiaeth (Bwrdd Iechyd)
  - Oed
  - Rhyw
  - Cwintel Amddifadedd (MALC*)

- Roedd targedu cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar fylchau demograffig mewn recriwtio.

- Cwblhaodd aelodau'r panel arolwg recriwtio cychwynnol a gofynnir iddynt gwblhau arolygon 15-20 munud bob yn ail mis. Cynhelir arolygon ar-lein neu dros y ffôn bob yn ail fis, yn dibynnu ar ddewis y sawl sy’n cymryd rhan.

* Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Mae rhagor o fanylion methodolegol ar gael ym mhrotocol y prosiect.

# Dulliau – Arolwg Bob yn Ail Fis

- Ar gyfer pob arolwg, gwahoddir holl aelodau'r panel i gwblhau'r holiadur trwy'r dull y maent yn ei ffafrio (ffôn neu ar-lein). Rhoddir tair wythnos i aelodau'r panel gwblhau'r arolwg. O fewn yr amserlen honno, nodir bylchau yn y proffil demograffig sydd ei angen i gyflawni sampl sy'n cynrychioli oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd Cymru, ac anfonir nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg.

Recriwtiwyd y cyfranogwyr a gwblhaodd arolwg mis Rhagfyr drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Recriwtio | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 619 | 55% |
| Dros y ffôn | 371 | 33% |
| Wyneb yn wyneb (panel) | 84 | 8% |
| Wyneb yn wyneb (untro) | 45 | 4% |

- Er mwyn cynyddu cynrychiolaeth ar draws sampl yr arolwg, cynhelir tua 100 o gyfweliadau wyneb yn wyneb fesul arolwg gyda grwpiau poblogaeth a dargedir. Gwahoddir yr unigolion hyn i gwblhau'r arolwg ac fe'u gwahoddir yna i ymuno â'r panel. Felly mae cyfran yn gyfranogwyr sy'n cwblhau arolwg untro. Yn ogystal, rhoddir hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n targedu grwpiau poblogaeth penodol. Mae'r unigolion hyn yn darparu gwybodaeth ddemograffig ac yna'n cael eu gwahodd i gwblhau'r arolwg byw.

Cwblhaodd y cyfranogwyr arolwg mis Rhagfyr drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Cyfranogiad | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 892 | 80% |
| Dros y ffôn | 124 | 11% |
| Wyneb yn wyneb | 103 | 9% |